



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2010 Rhif 893 (Cy.92)**

**2010 No. 893 (W.92)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

**Rheoliadau Hylendid Bwyd  
(Cymru) (Diwygio) 2010**

**The Food Hygiene (Wales)  
(Amendment) Regulations 2010**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/31 (Cy.5), fel y'i diwygiwyd eisoes) drwy ddiweddarau'r diffiniadau o rai o offerynnau'r UE y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hynny a thrwy ddarparu, pan ydys wedi cydymffurfio â rhai gofynion, na fernir bod person wedi mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor neu ei fod wedi methu â chydymffurfio â hwy a hwnnw'n Rheoliad sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55; mae testun diwygiedig y Rheoliad hwnnw wedi ei osod bellach mewn Corrigendwm, OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22, y mae'n rhaid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach, OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26).

1. These Regulations amend the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/31 (W.5), as already amended) by updating the definitions of certain EU instruments that are referred to in those Regulations and by providing that when certain requirements are complied with a person is considered not to have contravened or failed to comply with specified provisions of Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin (OJ No. L139, 30.4.2004, p.55; the revised text of that Regulation is now set out in a Corrigendum, OJ No. L226, 25.6.2004, p.22, which must be read with a further Corrigendum, OJ No. L204, 4.8.2007, p.26).

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 i ddiweddarau'r diffiniadau o rai o offerynnau'r UE drwy—

2. These Regulations amend the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 to update the definitions of certain EU instruments by—

- (a) rhoi cyfeiriadau at offerynnau UE penodedig yn lle'r cyfeiriadau at offerynnau'r UE sy'n ymddangos ar hyn o bryd ar ôl y diffiniad o "mangre" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) (*rheoliad 2(2)*); a
- (b) rhoi Atodlen 1 ddiwygiedig (diffiniadau o ddeddfwriaeth UE) yn lle'r Atodlen 1 bresennol (diffiniadau o ddeddfwriaeth Gymunedol) (*rheoliad 2(4)*).

- (a) substituting references to specified EU instruments for the references to the EU instruments that currently appear after the definition of "premises" in paragraph (1) of regulation 2 (interpretation) (*regulation 2(2)*); and
- (b) substituting a revised Schedule 1 (definitions of EU legislation) for the existing Schedule 1 (definitions of Community legislation) (*regulation 2(4)*).

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio hefyd Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 i ddarparu, pan ydys wedi cydymffurfio â rhai gofynion, na fernir bod person wedi mynd yn groes i ddarpariaethau penodedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 neu ei fod wedi methu â chydymffurfio â hwy. Maent yn gwneud

3. These Regulations also amend the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 to provide that when certain requirements are complied with a person is considered not to have contravened or failed to comply with specified provisions of Regulation (EC) No. 853/2004. They do so by substituting a revised regulation 17

hynny drwy roi rheoliad 17 diwygiedig (tramgwyddau a chosbau) yn lle'r hen un a thrwy fewnosod Atodlenni 3A, 3B, 3C a 3Ch (*rheoliad 2(3) a (5)*).

4. Mae'r rheoliad 17(5) newydd yn dweud, ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion yr Atodlen 3A newydd, na fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 3(1) neu 4(1)(a) o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 neu wedi methu â chydymffurfio â hi, o'i darllen yn y naill achos neu'r llall gyda pharagraff 5 o Bennod II o Adran I o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw (gweithredwyr busnesau bwyd i sicrhau bod gan ladd-dai lle y mae carnolion domestig yn cael eu cigydda gyfleusterau cloadwy i storio cig y daliwyd gafael arno mewn oergell a chyfleusterau cloadwy ar wahân i storio cig y datganwyd ei fod yn anffit i'w fwyta gan bobl).

5. Mae'r rheoliad 17(6) newydd yn dweud, ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion yr Atodlen 3B newydd, na fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 3(1) neu 4(1)(a) o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 neu wedi methu â chydymffurfio â hi, o'i darllen yn y naill achos neu'r llall gyda pharagraff 5 o Bennod II o Adran II o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw (gweithredwyr busnesau bwyd i sicrhau bod gan ladd-dai lle y mae dofednod neu lagomorffiaid yn cael eu cigydda gyfleusterau cloadwy i storio cig y daliwyd gafael arno mewn oergell a chyfleusterau cloadwy ar wahân i storio cig y datganwyd ei fod yn anffit i'w fwyta gan bobl).

6. Mae'r rheoliad 17(7) newydd yn dweud, ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion yr Atodlen 3C newydd, na fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 3(1) neu 4(1)(a) o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 neu wedi methu â chydymffurfio â hi, o'i darllen yn y naill achos neu'r llall gyda pharagraff 6 o Bennod II o Adran I o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw (gweithredwyr busnesau bwyd i sicrhau bod gan ladd-dai lle y mae carnolion domestig yn cael eu cigydda fan ar wahân gyda chyfleusterau priodol i lanhau, golchi a diheintio cyfryngau cludo ar gyfer da byw onid yw'r awdurdod cymwys yn caniatáu iddynt beidio â chael manau o'r fath a bod manau a chyfleusterau awdurdodedig swyddogol yn bodoli wrth law).

7. Mae'r rheoliad 17(8) newydd yn dweud, ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion yr Atodlen 3Ch newydd, na fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 3(1) neu 4(1)(a) o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 neu wedi methu â chydymffurfio â hi, o'i darllen yn y naill achos neu'r llall gyda pharagraff 6(b) o Bennod II o Adran II o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw (gweithredwyr busnesau bwyd i sicrhau bod gan ladd-dai lle y mae dofednod neu lagomorffiaid yn cael eu cigydda fan ar wahân gyda chyfleusterau priodol i lanhau, golchi a diheintio cyfryngau cludo onid oes manau a chyfleusterau sydd wedi eu hawdurdodi'n swyddogol yn bodoli wrth law).

(offences and penalties) and by inserting new Schedules 3A, 3B, 3C and 3D (*regulation 2(3) and (5)*).

4. The new regulation 17(5) says that, provided the requirements of the new Schedule 3A are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 3(1) or 4(1)(a) of Regulation (EC) No. 853/2004 as read in either case with paragraph 5 of Chapter II of Section I of Annex III to that Regulation (food business operators to ensure that slaughterhouses in which domestic ungulates are slaughtered have lockable facilities for the refrigerated storage of detained meat and separate lockable facilities for the storage of meat declared unfit for human consumption).

5. The new regulation 17(6) says that, provided the requirements of the new Schedule 3B are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 3(1) or 4(1)(a) of Regulation (EC) No. 853/2004 as read in either case with paragraph 5 of Chapter II of Section II of Annex III to that Regulation (food business operators to ensure that slaughterhouses in which poultry or lagomorphs are slaughtered have lockable facilities for the refrigerated storage of detained meat and separate lockable facilities for the storage of meat declared unfit for human consumption).

6. The new regulation 17(7) says that, provided the requirements of the new Schedule 3C are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 3(1) or 4(1)(a) of Regulation (EC) No. 853/2004 as read in either case with paragraph 6 of Chapter II of Section I of Annex III to that Regulation (food business operators to ensure that slaughterhouses in which domestic ungulates are slaughtered have a separate place with appropriate facilities for the cleaning, washing and disinfection of means of transport for livestock unless the competent authority permits them not to have such places and official authorised places and facilities exist nearby).

7. The new regulation 17(8) says that, provided the requirements of the new Schedule 3D are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 3(1) or 4(1)(a) of Regulation (EC) No. 853/2004 as read in either case with paragraph 6(b) of Chapter II of Section II of Annex III to that Regulation (food business operators to ensure that slaughterhouses in which poultry or lagomorphs are slaughtered have a separate place with appropriate facilities for the cleaning, washing and disinfection of means of transport unless officially authorised places and facilities exist nearby).

**8.** Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn ac mae ar gael gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Caerdydd, CF10 1EW.

**8.** A full regulatory impact assessment has been undertaken in respect of these Regulations and is available from the Food Standards Agency, 11th Floor Southgate House, Cardiff, CF10 1EW.

**2010 Rhif 893 (Cy.92)**

**2010 No. 893 (W.92)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

**Rheoliadau Hylendid Bwyd  
(Cymru) (Diwygio) 2010**

**The Food Hygiene (Wales)  
(Amendment) Regulations 2010**

*Gwnaed* 18 Mawrth 2010

*Made* 18 March 2010

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 23 Mawrth 2010

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 23 March 2010

*Yn dod i rym* 13 Ebrill 2010

*Coming into force* 13 April 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(2).

The Welsh Ministers have been designated for the purposes of that section in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food(2).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3) cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra'r oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu paratoi.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3) there has been open and transparent public consultation during the preparation of these Regulations.

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 13 Ebrill 2010.

**Title and commencement**

1. The title of these Regulations is The Food Hygiene (Wales) (Amendment) Regulations 2010 and they come into force on 13 April 2010.

---

(1) 1972 p.68.

(2) O.S. 2005/1971. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC ynghylch y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasu i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu - Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

---

(1) 1972 c.68.

(2) S.I. 2005/1971. By virtue of section 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are exercisable by the Welsh Ministers.

(3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Regulation (EC) No. 596/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the Treaty to Council Decision 1999/468/EC with regard to the regulatory procedure with scrutiny: Adaptation to the regulatory procedure with scrutiny - Part Four (OJ No. L188, 18.7.2009, p.14).

## Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

2.–(1) Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(1) wedi eu diwygio'n unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), yn lle'r cyfeiriadau at offerynnau'r UE sy'n ymddangos yn union ar ôl y diffiniad o "mangre", rhodder y cyfeiriadau canlynol yn y man priodol yn nhrefn yr yddor—

"Mae i'r ymadroddion "Penderfyniad 2006/766" ("Decision 2006/766"), "Penderfyniad 2009/951" ("Decision 2009/951"), "Cyfarwyddeb 2004/41" ("Directive 2004/41"), "Rheoliad 178/2002" ("Regulation 178/2002"), "Rheoliad 852/2004" ("Regulation 852/2004"), "Rheoliad 853/2004" ("Regulation 853/2004"), "Rheoliad 854/2004" ("Regulation 854/2004"), "Rheoliad 882/2004" ("Regulation 882/2004"), "Rheoliad 1688/2005" ("Regulation 1688/2005"), "Rheoliad 2073/2005" ("Regulation 2073/2005"), "Rheoliad 2074/2005" ("Regulation 2074/2005"), "Rheoliad 2075/2005" ("Regulation 2075/2005"), "Rheoliad 2076/2005" ("Regulation 2076/2005"), "Rheoliad 1662/2006" ("Regulation 1662/2006"), "Rheoliad 1663/2006" ("Regulation 1663/2006"), "Rheoliad 1664/2006" ("Regulation 1664/2006"), "Rheoliad 1666/2006" ("Regulation 1666/2006"), "Rheoliad 1791/2006" ("Regulation 1791/2006"), "Rheoliad 479/2007" ("Regulation 479/2007"), "Rheoliad 1243/2007" ("Regulation 1243/2007"), "Rheoliad 1244/2007" ("Regulation 1244/2007"), "Rheoliad 1245/2007" ("Regulation 1245/2007"), "Rheoliad 1246/2007" ("Regulation 1246/2007"), "Rheoliad 1441/2007" ("Regulation 1441/2007"), "Rheoliad 439/2008" ("Regulation 439/2008"), "Rheoliad 1250/2008" ("Regulation 1250/2008"), "Rheoliad 146/2009" ("Regulation 146/2009"), "Rheoliad 219/2009" ("Regulation 219/2009"), "Rheoliad 596/2009" ("Regulation 596/2009"), a "Rheoliad 669/2009" ("Regulation 669/2009") yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;".

(3) Yn lle rheoliad 17 (tramgwyddau a chosbau) rhodder y rheoliad a ganlyn—

### "Tramgwyddau a chosbau

17.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) i (8), bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau Cymunedol penodedig neu sy'n methu cydymffurfio ag unrhyw un neu rai ohonynt yn euog o dramgwydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn agored—

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol; neu

## Amendments to the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006

2.–(1) The Food Hygiene (Wales) Regulations 2006(1) are amended in accordance with the following paragraphs.

(2) In paragraph (1) of regulation 2 (interpretation) for the references to the EU instruments appearing immediately after the definition of "premises" there are substituted in the appropriate place in alphabetical order the following references—

"Decision 2006/766" ("*Penderfyniad 2006/766*"), "Decision 2009/951" ("*Penderfyniad 2009/951*"), "Directive 2004/41" ("*Cyfarwyddeb 2004/41*"), "Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*"), "Regulation 852/2004" ("*Rheoliad 852/2004*"), "Regulation 853/2004" ("*Rheoliad 853/2004*"), "Regulation 854/2004" ("*Rheoliad 854/2004*"), "Regulation 882/2004" ("*Rheoliad 882/2004*"), "Regulation 1688/2005" ("*Rheoliad 1688/2005*"), "Regulation 2073/2005" ("*Rheoliad 2073/2005*"), "Regulation 2074/2005" ("*Rheoliad 2074/2005*"), "Regulation 2075/2005" ("*Rheoliad 2075/2005*"), "Regulation 2076/2005" ("*Rheoliad 2076/2005*"), "Regulation 1662/2006" ("*Rheoliad 1662/2006*"), "Regulation 1663/2006" ("*Rheoliad 1663/2006*"), "Regulation 1664/2006" ("*Rheoliad 1664/2006*"), "Regulation 1666/2006" ("*Rheoliad 1666/2006*"), "Regulation 1791/2006" ("*Rheoliad 1791/2006*"), "Regulation 479/2007" ("*Rheoliad 479/2007*"), "Regulation 1243/2007" ("*Rheoliad 1243/2007*"), "Regulation 1244/2007" ("*Rheoliad 1244/2007*"), "Regulation 1245/2007" ("*Rheoliad 1245/2007*"), "Regulation 1246/2007" ("*Rheoliad 1246/2007*"), "Regulation 1441/2007" ("*Rheoliad 1441/2007*"), "Regulation 439/2008" ("*Rheoliad 439/2008*"), "Regulation 1250/2008" ("*Rheoliad 1250/2008*"), "Regulation 146/2009" ("*Rheoliad 146/2009*"), "Regulation 219/2009" ("*Rheoliad 219/2009*"), "Regulation 596/2009" ("*Rheoliad 596/2009*"), and "Regulation 669/2009" ("*Rheoliad 669/2009*") have the meanings respectively given to them in Schedule 1;".

(3) For regulation 17 (offences and penalties) there is substituted the following regulation—

### "Offences and penalties

17.–(1) Subject to paragraphs (4) to (8), any person who contravenes or fails to comply with any of the specified Community provisions is guilty of an offence.

(2) Subject to paragraph (3), a person guilty of an offence under these Regulations is liable—

(a) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum; or

(1) O.S. 2006/31 (Cy. 5), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/373 (Cy. 33).

(1) S.I. 2006/31 (W. 5), amended by S.I. 2007/373 (W. 33).

(b) o'i gollfarnu ar ddiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, i ddirwy neu i'r ddau.

(3) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan reoliad 15 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis, neu i'r ddau.

(4) Ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion Atodlen 3, ni fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 4(2) o Reoliad 852/2004 neu wedi methu â chydymffurfio â hi, o'i darllen gyda pharagraff 4 o Bennod IV o Atodiad II i'r Rheoliad hwnnw (swmp-ddeunyddiau bwyd ar ffurf hylif, gronnau neu bowdr i'w cludo mewn daliedyddion a/neu gynwysyddion/tanceri sydd wedi eu neilltuo ar gyfer cludo deunyddiau bwyd).

(5) Ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion Atodlen 3A, ni fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 3(1) neu 4(1)(a) o Reoliad 853/2004 neu wedi methu â chydymffurfio ag un o'r Erthyglau hynny, o'i darllen yn y naill achos neu'r llall gyda pharagraff 5 o Bennod II o Adran I o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw (gweithredwyr busnes bwyd i sicrhau bod gan ladd-dai lle y mae carnolion domestig yn cael eu cigydda gyfleusterau cloadwy i storio cig y daliwyd gafael arno mewn oergell a chyfleusterau cloadwy ar wahân i storio cig y datganwyd ei fod yn anffit i'w fwyta gan bobl).

(6) Ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion Atodlen 3B, ni fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 3(1) neu 4(1)(a) o Reoliad 853/2004 neu wedi methu â chydymffurfio ag un o'r Erthyglau hynny, o'i darllen yn y naill achos neu'r llall gyda pharagraff 5 o Bennod II o Adran II o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw (gweithredwyr busnes bwyd i sicrhau bod gan ladd-dai lle y mae dofednod neu lagomorffiaid yn cael eu cigydda gyfleusterau cloadwy i storio cig y daliwyd gafael arno mewn oergell a chyfleusterau cloadwy ar wahân i storio cig y datganwyd ei fod yn anffit i'w fwyta gan bobl).

(7) Ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion Atodlen 3C, ni fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 3(1) neu 4(1)(a) o Reoliad 853/2004 neu wedi methu â chydymffurfio ag un o'r Erthyglau hynny, o'i darllen yn y naill achos neu'r llall gyda pharagraff 6 o Bennod II o Adran I o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw (gweithredwyr busnes bwyd i sicrhau bod gan ladd-dai lle y mae carnolion domestig yn cael eu cigydda le ar wahân gyda chyfleusterau priodol i olchi, glanhau a diheintio cyfryngau cludo da byw onid yw'r awdurdod cymwys yn caniatáu iddynt beidio â chael lleoedd o'r fath a bod lleoedd a chyfleusterau sydd wedi eu hawdurdodi'n swyddogol i'w cael wrth law).

(b) on conviction on indictment to imprisonment for a term not exceeding two years, to a fine or to both.

(3) A person guilty of an offence under regulation 15 is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale or to imprisonment for a term not exceeding three months or to both.

(4) Provided the requirements of Schedule 3 are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 4(2) of Regulation 852/2004 as read with paragraph 4 of Chapter IV of Annex II to that Regulation (bulk foodstuffs in liquid, granulate or powder form to be transported in receptacles and/or containers/tankers reserved for the transport of foodstuffs).

(5) Provided the requirements of Schedule 3A are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 3(1) or 4(1)(a) of Regulation 853/2004 as read in either case with paragraph 5 of Chapter II of Section I of Annex III to that Regulation (food business operators to ensure that slaughterhouses in which domestic ungulates are slaughtered have lockable facilities for the refrigerated storage of detained meat and separate lockable facilities for the storage of meat declared unfit for human consumption).

(6) Provided the requirements of Schedule 3B are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 3(1) or 4(1)(a) of Regulation 853/2004 as read in either case with paragraph 5 of Chapter II of Section II of Annex III to that Regulation (food business operators to ensure that slaughterhouses in which poultry or lagomorphs are slaughtered have lockable facilities for the refrigerated storage of detained meat and separate lockable facilities for the storage of meat declared unfit for human consumption).

(7) Provided the requirements of Schedule 3C are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 3(1) or 4(1)(a) of Regulation 853/2004 as read in either case with paragraph 6 of Chapter II of Section I of Annex III to that Regulation (food business operators to ensure that slaughterhouses in which domestic ungulates are slaughtered have a separate place with appropriate facilities for the cleaning, washing and disinfection of means of transport for livestock unless the competent authority permits them not to have such places and official authorised places and facilities exist nearby).

(8) Ar yr amod yr ydys wedi cydymffurfio â gofynion Atodlen 3Ch, ni fernir bod person wedi mynd yn groes i Erthygl 3(1) neu 4(1)(a) o Reoliad 853/2004 neu wedi methu â chydymffurfio ag un o'r Erthyglau hynny, o'i darllen yn y naill achos neu'r llall gyda pharagraff 6(b) o Bennod II o Adran II o Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw (gweithredwyr busnes bwyd i sicrhau bod gan ladd-dai lle y mae dofednod neu lagomorffiaid yn cael eu cigydda le ar wahân gyda chyfleusterau priodol i olchi, glanhau a diheintio cyfryngau cludo onid oes lleoedd a chyfleusterau sydd wedi eu hawdurdodi'n swyddogol i'w cael wrth law)."

(4) Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth Gymunedol), rhodder yr Atodlen (diffiniadau o ddeddfwriaeth UE) a osodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(5) Yn union ar ôl Atodlen 3 (swmpgludo olewau hylifol neu frasterau hylifol ar longau mordwyol a swmpgludo siwgr crai dros y môr) mewnosoder yr Atodlenni a osodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(8) Provided the requirements of Schedule 3D are complied with, a person is considered not to have contravened or failed to comply with Article 3(1) or 4(1)(a) of Regulation 853/2004 as read in either case with paragraph 6(b) of Chapter II of Section II of Annex III to that Regulation (food business operators to ensure that slaughterhouses in which poultry or lagomorphs are slaughtered have a separate place with appropriate facilities for the cleaning, washing and disinfection of means of transport unless officially authorised places and facilities exist nearby)."

(4) For Schedule 1 (definitions of Community legislation) there is substituted the Schedule (definitions of EU legislation) set out in Schedule 1 to these Regulations.

(5) Immediately after Schedule 3 (bulk transport in sea-going vessels of liquid oils or fats and the bulk transport by sea of raw sugar) there are inserted the Schedules set out in Schedule 2 to these Regulations.

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Social Services, under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

18 Mawrth 2010

18 March 2010

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Rheoliad 2(4)

Regulation 2(4)

YR ATODLEN A RODDIR YN LLE  
ATODLEN 1 I REOLIADAU HYLENDID  
BWYD (CYMRU) 2006

SCHEDULE SUBSTITUTED FOR  
SCHEDULE 1 TO THE FOOD HYGIENE  
(WALES) REGULATIONS 2006

"ATODLEN 1

"SCHEDULE 1

DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH UE

DEFINITIONS OF EU LEGISLATION

<p>Ystyr "Penderfyniad 2006/766" ("<i>Decision 2006/766</i>") yw Penderfyniad y Comisiwn 2006/766/EC sy'n sefydlu'r rhestrau o drydydd gwledydd a thiriogaethau y caniateir mewnforio ohonynt folysgiaid deufalf, ecinodermiaid, tiwnigogion, gastropodau morol a chynhyrchion pysgodfeydd(1) fel y diwygiwyd y Penderfyniad hwnnw ddiwethaf gan Benderfyniad 2009/951;</p>
<p>ystyr "Penderfyniad 2009/951" ("<i>Decision 2009/951</i>") yw Penderfyniad y Comisiwn 2009/951/EU sy'n diwygio Atodiadau I a II i Benderfyniad 2006/766/EC yn sefydlu'r rhestrau o drydydd gwledydd a thiriogaethau y caniateir mewnforio ohonynt folysgiaid deufalf, ecinodermiaid, tiwnigogion, gastropodau morol a chynhyrchion pysgodfeydd(2);</p>
<p>ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41" ("<i>Directive 2004/41</i>") yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diddymu rhai cyfarwyddebau ynglŷn â hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu a rhoi ar y farchnad rhai cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl ac sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Penderfyniad y Cyngor 95/408/EC(3);</p>
<p>ystyr "Rheoliad 178/2002" ("<i>Regulation 178/2002</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(4) fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad 596/2009;</p>

<p>"Decision 2006/766" ("<i>Penderfyniad 2006/766</i>") means Commission Decision 2006/766/EC establishing the lists of third countries and territories from which imports of bivalve molluscs, echinoderms, tunicates, marine gastropods and fishery products are permitted(1) as last amended by Decision 2009/951;</p>
<p>"Decision 2009/951" ("<i>Penderfyniad 2009/951</i>") means Commission Decision 2009/951/EU amending Annexes I and II to Decision 2006/766/EC establishing the lists of third countries and territories from which imports of bivalve molluscs, echinoderms, tunicates, marine gastropods and fishery products are permitted(2);</p>
<p>"Directive 2004/41" ("<i>Cyfarwyddeb 2004/41</i>") means Directive 2004/41/EC of the European Parliament and of the Council repealing certain directives concerning food hygiene and health conditions for the production and placing on the market of certain products of animal origin intended for human consumption and amending Council Directives 89/662/EEC and 92/118/EEC and Council Decision 95/408/EC(3);</p>
<p>"Regulation 178/2002" ("<i>Rheoliad 178/2002</i>") means Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(4) as last amended by Regulation 596/2009;</p>

(1) OJ Rhif L320, 18.11.2006, t.53.

(2) OJ Rhif L328, 15.12.2009, t.70.

(3) OJ Rhif L157, 30.4.2004, t.33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L195, 2.6.2004, t.12).

(4) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(1) OJ No. L320, 18.11.2006, p.53.

(2) OJ No. L328, 15.12.2009, p.70.

(3) OJ No. L157, 30.4.2004, p.33. The revised text of Directive 2004/41/EC is now set out in a Corrigendum (OJ No. L195, 2.6.2004, p.12).

(4) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.



<p>ystyr "Rheoliad 852/2004" ("<i>Regulation 852/2004</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid deunyddiau bwyd(1) fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 219/2009 ac fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2073/2005;</p>	<p>"Regulation 852/2004" ("<i>Rheoliad 852/2004</i>") means Regulation (EC) No. 852/2004 of the European Parliament and of the Council on the hygiene of foodstuffs(1) as amended by Regulation 219/2009 and as read with Regulation 2073/2005;</p>
<p>ystyr "Rheoliad 853/2004" ("<i>Regulation 853/2004</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(2) fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 2074/2005, Rheoliad 2076/2005, Rheoliad 1662/2006, Rheoliad 1791/2006, Rheoliad 1243/2007 a Rheoliad 219/2009 ac fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 1688/2005, Rheoliad 2074/2005 a Rheoliad 2076/2005;</p>	<p>"Regulation 853/2004" ("<i>Rheoliad 853/2004</i>") means Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(2) as amended by Regulation 2074/2005, Regulation 2076/2005, Regulation 1662/2006, Regulation 1791/2006, Regulation 1243/2007 and Regulation 219/2009 and as read with Directive 2004/41, Regulation 1688/2005, Regulation 2074/2005 and Regulation 2076/2005;</p>
<p>ystyr "Rheoliad 854/2004" ("<i>Regulation 854/2004</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl(3) fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 882/2004, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2076/2005, Rheoliad 1663/2006, Rheoliad 1791/2006 a Rheoliad 219/2009 ac fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2075/2005, Rheoliad 2076/2005 a Phenderfyniad 2006/766;</p>	<p>"Regulation 854/2004" ("<i>Rheoliad 854/2004</i>") means Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption(3) as amended by Regulation 882/2004, Regulation 2074/2005, Regulation 2076/2005, Regulation 1663/2006, Regulation 1791/2006 and Regulation 219/2009 and as read with Directive 2004/41, Regulation 2074/2005, Regulation 2075/2005, Regulation 2076/2005 and Decision 2006/766;</p>
<p>ystyr "Rheoliad 882/2004" ("<i>Regulation 882/2004</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a wneir i sicrhau bod cydymffurfedd â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a rheoliadau lles anifeiliaid yn cael ei wirio(4) fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad 596/2009 ac fel y'i darllenir gyda Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2076/2005, a Rheoliad 669/2009;</p>	<p>"Regulation 882/2004" ("<i>Rheoliad 882/2004</i>") means Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules(4) as last amended by Regulation 596/2009 and as read with Regulation 2074/2005, Regulation 2076/2005 and Regulation 669/2009;</p>
<p>ystyr "Rheoliad 1688/2005" ("<i>Regulation 1688/2005</i>") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â gwarantiau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer traddodi cig ac wyau penodol i'r Ffindir a Sweden(5);</p>	<p>"Regulation 1688/2005" ("<i>Rheoliad 1688/2005</i>") means Commission Regulation (EC) No. 1688/2005 implementing Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council as regards special guarantees concerning salmonella for consignments to Finland and Sweden of certain meat and eggs(5);</p>

(1) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.3) y mae'n rhaid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26).

(2) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22) y mae'n rhaid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26).

(3) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.206. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83) y mae'n rhaid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26).

(4) OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1) y mae'n rhaid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.29).

(5) OJ Rhif L271, 15.10.2005, t.17.

(1) OJ No. L139, 30.4.2004, p.1. The revised text of Regulation (EC) No. 852/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.3) which must be read with a further Corrigendum (OJ No. L204, 4.8.2007, p.26).

(2) OJ No. L139, 30.4.2004, p.55. The revised text of Regulation (EC) No. 853/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.22) which must be read with a further Corrigendum (OJ No. L204, 4.8.2007, p.26).

(3) OJ No. L139, 30.4.2004, p.206. The revised text of Regulation (EC) No. 854/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.83) which must be read with a further Corrigendum (OJ No. L204, 4.8.2007, p.26).

